

Crynodeb Gweithredol ar gyfer Aseu Rheoliadau Cynefinoedd Strategaeth Ddewisol Cynllun Datblygu Lleol Blaenau Gwent

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent

60609986

Crynodeb Gweithredol ar gyfer Asesu Rheoliadau Cynefinoedd Strategaeth Ddewisol Cynllun Datblygu Lleol Blaenau Gwent

Cyflwyniad

Fe benodwyd AECOM gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i ymgymryd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Strategaeth Ddewisol ei Chynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN), sy'n nodi anghenion tai a chyflogaeth y cyfnod rhwng 2108 a 2033. Amcan yr asesiad hwn oedd canfod unrhyw agwedd o'r Cynllun a all achosi effaith andwyol ar integreidd safleoedd Natura 2000 a elwir safleoedd Ewropeaidd (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a safleoedd Ramsar), un ai ar eu pennau'u hunain neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill, ac i gyngori ar fecanweithiau polisi priodol i sicrhau lliniaru lle nodwyd effeithiau o'r fath.

Cyd-destun Deddfwriaethol

Mae'r angen am asesiad effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd i'w weld yn Erthygl 6 Cyfarwydddeb Cynefinoedd a'i drosi i gyfraith Lloegr a Chymru gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'i diwygiwyd). Pwrpas y Gyfarwydddeb Cynefinoedd ydy "*cynnal neu adfer, i statws cadwraeth ffafriol, cynefinoedd naturiol a rhywogaethau ffawna a fflora gwyllt o ddiddordeb Cymunedol*" (Erthygl 2(2)). I ganfod p'un ai y bydd integreidd unrhyw un o'r safleoedd Ewropeaidd yn cael ei effeithio, mae gofyn i awdurdodau cymwys ymgymryd ag ARhC o'r cynllun neu'r prosiect dan sylw, gan gynnwys Asesiad Priodol os oes angen, cyn ei gymeradwyo.

Cwmpas

Wedi asesiad cychwynnol o'r safleoedd Ewropeaidd perthnasol o fewn 15 km i Flaenau Gwent a'r llwybrau effaith presennol, mae'r ARhC yn mynd i'r afael â'r safleoedd Ewropeaidd canlynol: ACA Safleoedd Ystlumod Brynbuga, ACA Coetiroedd Cwm Clydach, ACA Afon Wysg, ACA Gweundiroedd Aberbargod, ACA Coetiroedd Pen y Fâl, ACA Cwm Cadlan, ACA Bannau Brycheiniog, ACA Llyn Llan-gors, ACA Coed y Cerrig SAC ac ACA Blaen Cynon.

Tasgau ARhC

Yn dilyn casglu'r dystiolaeth gychwynnol, cam cyntaf unrhyw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ydy sgrinio ar gyfer Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (EAT), sef yn y bôn asesiad o'r risgiau i safleoedd Ewropeaidd, yn gysylltiedig â chynllun datblygu. Os nad oes modd eithrio EAT, a bod mecanwaith ar gyfer ymadwaith andwyol rhwng cynllun a derbynle yn bresennol, mae gofyn ymgymryd â cham nesaf ARhC, a elwir Asesiad Priodol. Dadansoddiad mwy manwl ydy'r Asesiad Priodol o'r llwybrau effeithiau a'r safleoedd Ewropeaidd a gafodd eu hystyried yn y cam sgrinio. Un o elfennau allweddol Asesiad Priodol ydy ystyried mesurau lliniaru, a all warchod safle Ewropeaidd rhag effeithiau andwyol niweidiol posib¹. Ymhellach, fe gadarnhaodd dyfarniad diweddar y dylai'r broses ARhC roi ystyriaeth i gynefinoedd neu rywogaethau y tu allan i safle Ewropeaidd, sy'n hanfodol i weithrediad y safle hwnnw a ddiogelir². Ar gyfer yr ARhC hwn, cynhaliwyd Gorchwyl (Sgrinio am Effeithiau Arwyddocaol Tebygol, EAT) a Gorchwyl 2 (Asesiad Priodol).

Casgliadau ac Argymhellion

Mae'r ARhC yn dangos y gellid eithrio EAT o'r llwybrau effeithiau a nodir mewn perthynas â'r rhan fwyaf o safleoedd Ewropeaidd. Fodd bynnag, oherwydd y cyfuniad o dystiolaeth wyddonol coll (h.y. dim modelu ansawdd aer ar gael) a'r diffyg manylder yn y Strategaeth Ddewisol (h.y. dim dyraniad safleoedd, geiriad polisi cyfyng), mae Asesiad Priodol o'r llwybrau effeithiau canlynol wedi'i ohirio tan ARhC y Cynllun wedi'i Adneuo:

- Effeithiau llygredd atmosfferig ar ACA Safleoedd Ystlumod Brynbuga ac ACA Coetiroedd Cwm Clydach
- Tir a gysylltir yn weithredol yn ymwneud ag ACA Safleoedd Ystlumod Brynbuga
- Ansawdd dŵr yn ACA Afon Wysg

Ni ellir eithrio ystyriaeth o effeithiau andwyol llygredd atmosfferig ar integreidd ACA Safleoedd Ystlumod Brynbuga ac ACA Coetiroedd Cwm Clydach, gan nad ydy modelu ansawdd aer ar gyfer cydrannau cynefin sensitif o fewn y safleoedd hyn ar gael. Fe argymhellir modelu lleiafswm o un trawslun ffordd o fewn i'r safleoedd hyn i hysbysu ARhC y Cynllun wedi'i Adneuo.

¹ Yn ôl penderfyniad gan Gyngor Cyfiawnder Ewrop, ni ellir bellach rhoi ystyriaeth i'r rhain yng nghanam sgrinio ARhC. People Over Wind and Sweetman v Coillte Teoranta (C-323/17)

² Dyfarniad 2018 Holohan. Achos C-461/17

Gyda golwg ar dir sydd wedi'i gysylltu'n weithredol ag ACA Safleoedd Ystlumod Brynbuga, ni ellir eithrio effeithiau andwyol ar integreidd y safleoedd oherwydd nad ydy dyraniadau'r safle ddim eto ar gael i'w hasesu. Felly, fe ohirir Asesiad Priodol terfynol o'r llwybr effaith hwn i ARhC y Cynllun wedi'i Adneuo. Search hynny, er mwyn helpu lleihau'r potensial o effeithiau andwyol, fe argymhellir y dylid gosod geiriad polisi amddiffynnol yn y Cynllun wedi'i Adneuo sy'n cydnabod y Parth Cynhaliath Craidd (PCC) 2km ar gyfer ystlumod pedol lleiaf (gweler ARhC am eiriad manwl). Mae tystiolaeth wyddonol yn dynodi bod cynefin i fforio am fwyd a/neu gymudo o fewn i'r byffer yma yn hanfodol i integreidd poblogaethau'r ystlumod yn yr ACA.

Yn olaf, ynghylch ansawdd dŵr, fe ymgwymerir ag Asesiad Priodol ar gyfer y Cynllun wedi'i Adneuo, pan fydd dosraniad gofodol datblygiad ag isadeiledd cysylltiedig Gweithiau Trin Dŵr Gwastraff (GTDG), ar gael. Os ydy datblygiad arwyddocaol yn rhan gogledd-ddwyreiniol Blaenau Gwent yn dod ymlaen, sy'n cael ei gwasanaethu gan GTDG sy'n gollwng i ddalgylch ACA Afon Wysg, fe argymhellir bod geiriad rhagofalus yn cael ei gynnwys mewn polisi priodol o'r Cynllun wedi'i Adneuo i sicrhau y gellir cynnwys unrhyw ddatblygiad newydd o fewn yr hyn a ganiateir trwy isadeiledd GTDG (gweler ARhC am eiriad manwl). Fodd bynnag, deallir mai prin fydd y datblygiad a aiff yn ei flaen yn y maes hwn.